# PAM FOD FFERMIO YN BWYSIG I ERYRI?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn edrych ar ffermydd ger yr ysgol a ledled Eryri, er mwyn darganfod am y nwyddau maen nhw'n eu cynhyrchu. Maent yn gwneud gludwaith o ddefnyddiau naturiol i ddangos eu canfyddiadau. Mae dysgwyr yn archwilio ffermio cig yng Nghymru ac yn cynllunio, dylunio a defnyddio cwis ar-lein am hyn, ar gyfer pobl eraill. Maent yn ystyried feganiaeth a thwf cnydau âr yng Nghymru, gan ystyried trosglwyddiadau egni mewn cadwyn fwyd syml. Mae dysgwyr yn tyfu llysiau i'w gwerthu yn ffair yr ysgol, gan ystyried sut mae eginblanhigion yn cael eu meithrin ac unrhyw elw posibl. Yn olaf, mae dysgwyr yn ystyried manteision ac anfanteision ffermio organig.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yun unig).
Dulliau o dorri/siapio defnyddiau naturiol ar gyfer gwneud collage, e.e. siswrn.
Dulliau o dyfu llysiau, e.e. compost/pridd, cynwysyddion neu welyau, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## SUT YDYM NI'N FFERMIO YN ERYRI?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n edrych ar ffermydd ger yr ysgol ac ar draws Eryri i ddarganfod y nwyddau maen nhw'n eu cynhyrchu. Yna, byddant yn gwneud gludwaith o ddefnyddiau naturiol i ddangos eu canfyddiadau.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae'r fferm agosaf i'r ysgol? Pa nwyddau mae'r fferm hon yn eu cynhyrchu? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sawl fferm ydych chi'n meddwl sydd o fewn radiws o 10km i'r ysgol? Pam?
- Sawl fferm ydych chi'n meddwl sydd yn Eryri?
- Pa nwyddau mae ffermydd Eryri yn eu cynhyrchu?
- Ble mae ffermwyr lleol yn gwerthu eu nwyddau? Pam?

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r map OS i wirio eu syniadau am ffermio yn Eryri a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae'r fferm agosaf i'r ysgol? Beth mae'r fferm hon yn ei gynhyrchu? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sawl fferm sydd o fewn radiws 10km i'r ysgol? Sut byddwch chi'n gweithio allan faint yw'r nifer?
- Sawl fferm sydd yn Eryri? Sut byddwch chi'n gweithio allan sawl fferm sydd yn Eryri?

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i gynhyrchu gludwaith am ffermio yn Eryri er mwyn dangos yr amrywiaeth o nwyddau y mae fferm yn eu cynhyrchu. Bydd y gludwaith yn cael ei wneud o ddefnyddiau naturiol sydd i'w cael yn yr awyr agored. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallwch chi ddarganfod beth mae ffermydd Eryri yn ei gynhyrchu?
- Pa fathau o wefannau allech chi eu defnyddio i ddarganfod hyn? Pam fyddai'r rhain yn wefannau da i'w defnyddio?
- Sut allech chi ddefnyddio AI i ddod o hyd i atebion i'ch cwestiwn? Pa AI allech chi eu defnyddio?

Yna, gofynnwch iddyn nhw restru'r nwyddau y mae ffermydd Eryri yn eu cynhyrchu yn y blwch a ddarparwyd.

## Sgrîn 6

Mae angen i ddysgwyr gynllunio sut olwg fydd ar eu gludwaith a meddwl am y defnyddiau naturiol y gallen nhw eu defnyddio. Er mwyn gwneud hyn, ewch â nhw allan i'r awyr agored i ystyried y meini prawf a nodir:

- lle byddwch chi'n gwneud eich gludwaith
- pa ddefnyddiau naturiol sydd ar gael i'w defnyddio
- sut olwg fydd ar eich gludwaith a beth fydd yn ei arddangos
- a oes angen defnyddiau naturiol eraill arnoch ar gyfer gwneud eich gludwaith
- os oes angen defnyddiau eraill arnoch, beth ydyn nhw ac o ble y byddwch chi'n eu cael
- maint eich gludwaith.

## Sgrîn 7

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gynllunio eu gludwaith.

## Sgrîn 8

Yma, rhestrir y nwyddau a gynhyrchir gan ffermydd Eryri. Gofynnwch iddyn nhw feddwl sut byddan nhw'n braslunio'r gludwaith trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddefnyddiau naturiol fyddwch chi'n eu defnyddio?
- Sut byddwch chi'n defnyddio pob un math o ddefnydd naturiol er mwyn dangos un o'r nwyddau? Pam fydd hyn yn gweithio? A oes defnydd naturiol arall a allai ddangos hyn yn well?
- Pa mor fawr fydd eich gludwaith? Pam?
- Sut byddwch chi'n marcio ymylon eich gludwaith?

Yna, gofynnwch iddyn nhw gasglu'r holl ddefnyddiau ac unrhyw offer sydd eu hangen arnyn nhw, ar gyfer gwneud y gludwaith.

## Sgrîn 9

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i wneud eu gludwaith.

TASG 2

# SUT YDYM NI'N FFERMIO CIG YNG NGHYMRU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn y dasg hon yn archwilio ffermio cig yng Nghymru ac yn cynllunio, dylunio a defnyddio cwis ynghylch hyn, ar gyfer pobl eraill.

## Sgrîn 3

Dangoswch y fideo: Eryri 70 – Y Ffermwyr / The Farmers (yn Gymraeg gydag is-deitlau Saesneg, tua 3 munud). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae Teleri a Ned yn ei ffermio?
- Pa nwyddau ydych chi'n meddwl y mae'r fferm yn eu cynhyrchu?
- Pa waith mae Teleri a Ned yn ei wneud yn y fideo?

## Sgrîn 4

Dangoswch y fideo: The uniquely Welsh way of farming – Chef Francesco Mazzei visits a hill farm (tua 4 munud a hanner). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl mai defaid mynydd Cymreig y mae'r ffermwr yn eu cadw yn hytrach nag unrhyw fridiau eraill?
- Pam fod y cogydd eisiau prynu cig oen Cymreig?
- Sut mae gwerthu i'r bwytai gorau yn helpu ffermwyr Cymru?
- Pryd wnaethoch chi fwyta cig oen Cymreig ddiwethaf? Sut flas oedd arno?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod ffermwyr Cymru yn cael eu hadnabod ar draws y byd fel cynhyrchwyr cig o ansawdd uchel. Ar y sgrîn, darperir data am werthiant cig oen yng Nghymru. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa gyfrifiadau allech chi eu gwneud er mwyn dangos y ganran (%) o allforion mewn termau ariannol? Gwnewch y cyfrifiadau.
- Sut allech chi ddangos y data rydych chi wedi ei gyfrifo, yn glir? Defnyddiwch Excel i arddangos y data.

Mae cyfarwyddiadau ar y sgrîn ar gyfer defnyddio Excel.

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, rhoddir data am ffermio defaid yng Nghymru dros amser. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dueddiadau allwch chi eu gweld yn y data? Pa resymau allech chi eu rhoi dros y tueddiadau hyn?
- Beth yw'r berthynas rhwng cyfanswm y defaid a'r ŵyn, a maint y ddiadell? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn digwydd?

## Sgrîn 7

Dyma ddata am y 'pris defaid wedi'u gorffen', h.y. yr elw cyfartalog i'r daliadau/ffermydd fesul kg o bwysau'r ddafad yn fyw. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa duedd allwch chi ei gweld yn y data? Pa resymau allech chi eu rhoi am y duedd hon?
- Yn siop y cigydd, gellir prisio cig oen Cymru ar £18 y kg. Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint o wahaniaeth rhwng yr arian y mae ffermwr yn ei dderbyn fesul kg a'r arian a godir gan gigyddion? Rhestrwch gymaint o resymau ag y gallwch.
- Os ydych chi'n bwyta cig oen Cymru mewn bwyty, efallai y codir £32 arnoch am ddau olwyth cig oen, sy'n pwyso 300g. Pa bris ydych chi'n ei dalu fesul kg o gig oen?
- Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint o wahaniaeth rhwng y pris yn y cigydd a'r hyn a godir gan fwyty? Rhestrwch gynifer o resymau ag y gallwch.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a darllen y dudalen we: Ystadegau'r Diwydiant - HCC / Cig Cymru. Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ddatblygu cwis ar gyfer dysgwyr eraill, sy'n seiliedig ar y ffeithlun.

Byddant yn defnyddio adnodd ar gyfer  creu arolwg ar-lein i gynnal y cwis, yn anfon y ddolen yn electronig ac yn darparu adborth i'r cwiswyr ynghylch pa mor dda wnaethon nhw yn y cwis. Rhoddir cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio ffurflenni Google ar sgrîn ddiweddarach, er y gellid defnyddio unrhyw adnodd arolwg ar-lein arall.

## Sgrîn 9

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn - agored neu gaeëdig? Pam?
- Edrychwch ar y ffeithlun eto. Cwestiynau ynghylch beth ydych chi am eu gofyn? Pam?
- Sut gallwch chi sicrhau bod rhai cwestiynau yn haws nag eraill?
- Sut allech chi ofyn cwestiynau mwy cymhleth sy'n gwneud i gwiswyr feddwl o ddifrif? Pa fathau o gwestiynau allech chi eu gofyn?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddrafftio deg cwestiwn.

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu Google Forms. (Saesneg yn unig). Yna, dylent archwilio sut mae'r adnodd yn gweithio a'r mathau o gwestiynau y gallant eu gofyn.

Gofynnwch iddynt ddefnyddio eu cwestiynau drafft, eu rhoi mewn ffurflen a pharhau i ailddrafftio nes eu bod yn siŵr y byddant yn gweithio.

Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr yrru dolen electronig i'w cwis gorffenedig, i bobl eraill, gan ofyn iddyn nhw roi cynnig ar y cwis.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar ymatebion pobl eraill i'w cwis a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor dda wnaeth eich cwis weithio? Pam?
- Pa gwestiynau oedd hawsaf i bobl eraill? Ai dyma'r cwestiynau roeddech chi'n disgwyl iddynt fod yn hawdd?
- Pa gwestiynau oedd anoddaf i bobl eraill? Ai dyma'r cwestiynau roeddech chi'n disgwyl iddynt fod yn anodd?

Yna, gallant roi adborth ar ba mor dda y perfformiodd y dosbarth yn y cwis.

TASG 3

# BETH ARALL RYDYM NI'N EI FFERMIO YNG NGHYMRU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried feganiaeth a thwf cnydau âr yng Nghymru.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o bobl yn credu y dylen ni fwyta llai o gig neu ddim cig o gwbl. Mae eraill yn credu na ddylem ddefnyddio unrhyw gynhyrchion anifeiliaid o gwbl ar gyfer bwyd neu nwyddau.

Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam mae gan bobl y gwahanol gredoau hyn?
- Beth yw eich credoau chi o ran ffermio anifeiliaid ar gyfer cynhyrchu bwyd? Pam?
- Pe byddech chi'n dewis bod yn fegan, beth fyddai hynny'n ei olygu i'ch bywyd? Beth fyddai'n newid? Pam?
- Pa mor hawdd fyddai dewis bod yn fegan, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 4

Dywedwch wrth y dysgwyr bod llawer o ffermwyr yn tyfu cnydau âr. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa gnydau âr sy'n cael eu tyfu ger eich hysgol neu'ch cartref?
- Pa gnydau âr sy'n cael eu tyfu yn Eryri, yn eich barn chi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa gnydau âr eraill sy'n cael eu tyfu yng Nghymru, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth am gnydau âr a dyfir yng Nghymru. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai o'r cnydau a ffrwythau a llysiau uchod sy'n cael eu tyfu ger eich hysgol neu'ch cartref?
- Pam y gallai fod yn broblem mai dim ond 20% o'r cynnyrch garddwriaethol sy'n cael ei fwyta yng Nghymru, a gynhyrchir yng Nghymru?

## Sgrîn 6

Mae siart cylch yma yn dangos sut mae tir amaethyddol yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallwch chi amcangyfrif pa ganran yw pob un math o ddefnydd tir?
- Beth ydych chi'n meddwl allai fod yn y categori defnydd 'arall'? Rhestrwch gymaint o syniadau ag y gallwch.

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod ffermio bron yn gwbl ddibynnol ar bridd, daeareg a thopograffeg y tir sydd ar gael, ac y gellir dosbarthu tir fel y dangosir yn y tabl ar y sgrîn.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu'r map [Map newydd – MapData Cymru] ac archwilio'r dosbarthiad tir. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n eich synnu am y graddau tir yng Nghymru? Pam mae'n eich synnu chi?
- I ba radd y mae'r rhan fwyaf o'r tir yn cael ei ddosbarthu? Pam ydych chi'n meddwl mae hyn wedi digwydd?
- Beth yw eich amcangyfrifon o'r ganran (%) o'r tir sydd wedi derbyn y graddau unigol hyn:
  - 3a
  - 3b
  - 4
  - 5?
- Sut wnaethoch chi weithio allan yr amcangyfrifon hyn? A oes pobl eraill wedi gwneud amcangyfrifon tebyg? Pam?
- O edrych ar y graddau tir, beth fyddech chi'n tybio yw'r prif fathau o ffermio yng Nghymru? Pam?

### Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, ceir cadwyn fwyd a thestun sy'n son am drosglwyddiadau egni. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod y trosglwyddiad egni yn aneffeithlon?
- At ba bwrpas y gallai'r grawnfwyd fod yn 'defnyddio' yr egni?
- At ba bwrpas y gallai'r ysydd fod yn 'defnyddio' yr egni?
- Pam nad yw'r fuwch yn ennill yr holl egni o'r grawnfwyd?
- Pam nad ydyn ni'n ennill yr holl egni o'r fuwch?
- Pam ei bod yn fwy ynni-effeithlon i bobl fwyta grawnfwyd yn hytrach na gwartheg?

TASG 4

## TYFU EICH BWYD EICH HUN

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw am dyfu llysiau i'w gwerthu yn ffair yr ysgol.

### Sgrîn 3

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i dyfu llysiau i'w gwerthu yn ffair yr ysgol. Beth bynnag maen nhw'n penderfynu ei dyfu, bydd yn rhaid iddo fod yn barod i'w werthu ar yr amser iawn. Gwahoddwch nhw i ymchwilio ar y rhyngrwyd er mwyn penderfynu pa hadau llysiau y byddan nhw'n eu plannu.

### Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y pecyn hadau yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer plannu a meithrin yr eginblanhigion. Gofynnwch iddynt edrych ar y pecyn hadau ar y sgrîn, ac yna drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd y dylid plannu hadau moron?
- Pa mor bell oddi wrth ei gilydd y dylid tyfu moron? A ddylid hau'r hadau ar y pellter hwn oddi wrth ei gilydd, yn eich barn chi? Pam?
- Sut ddylech chi ofalu am eginblanhigion moron?
- Faint o amser ar ôl plannu'r hadau, y bydd y moron yn barod i'w cynaeafu?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr brynu hadau neu gellir rhoi'r hadau iddyn nhw. Ar ôl hynny, dylent ddarllen y wybodaeth sydd ar y pecyn yn ofalus. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd ddylech chi hau eich hadau?
- Pa mor ddwfn y dylech chi blannu'r hadau?
- Sut dylech chi feithrin yr eginblanhigion?
- Pryd fydd eich llysiau'n barod i'w cynaeafu?

## Sgrîn 6

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i hau eu hadau.

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr bod angen iddyn nhw feddwl faint mae'r llysiau wedi'i gostio i'w tyfu, cyn iddyn nhw eu gwerthu. Bydd hyn yn eu helpu i benderfynu am faint o arian i'w gwerthu. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Faint gostiodd yr hadau?
- Faint o amser wnaethoch chi ei dreulio ar feithrin eich eginblanhigion? Pa gost ydych chi'n meddwl y gallai hyn ei ychwanegu at gost gwerthu eich llysiau?
- Beth wnaethoch chi er mwyn meithrin eich eginblanhigion? A oes cost i hynny? Os oes, beth yw'r gost?
- Sut byddwch chi'n gwerthu'ch llysiau – yn unigol, mewn pecyn neu yn ôl eu pwysau?
- Pa bris fyddwch chi'n ei godi am bob llysieuyn/pecyn/kg?
- Faint o elw fyddwch chi'n ei wneud pan fyddwch chi'n gwerthu'ch llysiau? Sut wnaethoch chi gyfrifo hyn?

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i werthu eu llysiau. Yna, gallant weithio allan faint o elw y maent wedi'i wneud a beth y gallent ei wneud yn well y tro nesaf.

TASG 5

# PAM MAE FFERMIO ORGANIG YN BWYSIG?

Eglurwch fod y dasg hon yn ymwneud â manteision ac anfanteision ffermio organig.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod rhai pobl a ffermwyr yn defnyddio cemegau i gynorthwyo tyfiant eginblanhigion neu i gael gwared ar blanhigion, pryfed neu bathogenau eraill. (Mae diffiniad o bathogenau yn y ffenestr naid). Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fathau o gemegau y mae rhai pobl yn eu defnyddio i gynorthwyo twf eginblanhigion? Beth mae'r cemegau hyn yn eu cynnwys? Pam maen nhw'n helpu planhigion i dyfu?
- Beth ydyn ni'n galw cemegau y mae rhai pobl yn eu defnyddio er mwyn cael gwared ar blanhigion, pryfaid neu bathogenau eraill? Sut mae'r cemegau hyn yn gweithio?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr, pan nad yw ffermwyr âr yn defnyddio gwrtaith synthetig neu blaladdwyr, dywedir bod eu hamaethu yn 'organig'. Dim ond dulliau naturiol y mae'r ffermwyr hyn yn eu defnyddio i ofalu am y tir a meithrin eginblanhigion. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae'r fferm âr organig agosaf i'r ysgol? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam mae ffermio âr organig yn bwysig?
- Pa niwed mae defnyddio gwrtaith synthetig a phlaladdwyr yn ei gael ar yr amgylchedd? Pam?

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i wneud ychydig o ymchwil ar ffermio organig yn Eryri a Chymru, er mwyn cynhyrchu Sway i annog pobl i brynu cynnyrch organig.

Atgoffwch nhw bod angen iddynt ystyried y canlynol wrth chwilio ar y rhyngrwyd:

*Cyn ymchwilio...*

- Sut byddwch chi'n cynnal yr ymchwil hwn? Pam?
- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o wefannau fydd orau i edrych arnynt? Pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data…*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth/data yn ddibynadwy? Sut allech chi ddarganfod hyn?
- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 6

Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd angen i bob grŵp ddod o hyd i wybodaeth am:

- fanteision ffermio organig
- anfanteision ffermio organig.

Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy sy'n mynd i wneud beth yn eich grŵp? Pam?
- A ydych chi'n mynd i weithio mewn parau neu drioedd neu'n unigol? Pam?
- Sut ydych chi'n mynd i gofnodi'r hyn rydych chi'n ei ddarganfod? Pam ei gofnodi fel hyn?
- Sut ydych chi'n mynd i rannu eich canfyddiadau ag eraill? A ellid gwneud hyn yn ddigidol? Os felly, sut?

Yna, dylent wneud eu hymchwil a chynhyrchu Sway.

## Sgrîn 7

Ar y sgrîn hon, rhoddir cyfarwyddiadau ar gyfer gwneud Sway. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu Sway gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am sut y gwnaethon nhw baratoi a chynhyrchu eu Sway: yn unigol, mewn grwpiau, ar-lein , gwaith pâr. Yna, i ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt o: darllen, ymchwilio, tynnu lluniau, myfyrio ar waith blaenorol, dosbarthu, trafod, gwneud prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallant hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.